

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Ein cyf/Our ref MA/LG0864/21

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor dros Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

2 Mawrth 2021

Annwyl Mike

Heddiw fe wnes i ddatganiad yn y Senedd ynglŷn â'r cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Hoffwn gofnodi fy nioch diffuant i chi a'r Pwyllgor newid yn yr hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am y gwaith rhagorol a wnaed yn ystod yr ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r argymhellion a gyhoeddwyd ym mis Ebrill wedi darparu asgwrn cefn y cynllun newydd yr wyf ar fin ei gyhoeddi.

Un o'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu diffiniad mwy priodol o dlodi tanwydd: un sy'n adlewyrchu'n fwy cywir brofiad aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru. Fel ei man cychwyn, awgrymodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dull 'incwm gweddilliol', gan ddysgu gwersi o Loegr a'r Alban. Dywedodd yr argymhelliad y dylid gwneud y gwaith hwn ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a'i gwblhau o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

Yn fy ymateb, cytunais y dylai'r diffiniad a'r mesurau a ddefnyddir i asesu tlodi tanwydd fod yn briodol i bobl Cymru. Mae angen i unrhyw fesur ystyried natur dros dro tlodi tanwydd. Cytunais i roi ystyriaeth bellach i'r mater, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i randdeiliaid a ddylid parhau i ddefnyddio'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd, neu a ddylid mabwysiadu diffiniad amgen.

Mae Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 yn diffinio bod person i'w ystyried yn fyw "mewn tlodi tanwydd" os yw aelod o aelwyd yn byw ar incwm is mewn cartref na ellir ei gadw'n gynnes am gost resymol. Mae'r diffiniad hwn yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru a Lloegr ond nid i'r Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I'r gwrthwyneb, mae Adran 2 o Ddeddf Tlodi Tanwydd (Targedau, Diffiniad a Strategaeth) (Yr Alban) 2019 bellach yn diffinio aelwyd yn yr Alban fel un sydd mewn tlodi tanwydd os, ar ôl talu ei chostau tai, y byddai angen mwy na 10% o'i hincwm net sy'n weddill i dalu am ei hanghenion tanwydd rhesymol, ac ar ôl talu am ei hanghenion tanwydd rhesymol, ei chostau gofal plant a'i chostau tai, mae hyn wedyn yn golygu na all yr aelwyd gynnal safon byw dderbyniol. Gelwir y dull hwn yn ddull incwm gweddilliol.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ein hymgyngghoriad yn cytuno y dylid cadw'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd yn Neddf 2000 yng Nghymru, tra awgrymodd 16% o ymatebwyr ddewis arall, megis y dylid mabwysiadu diffiniad yr Alban. Awgrymodd cefnogwyr ei fod yn parhau'n berthnasol a'i fod yn haws ei gyfathrebu a'i ddeall. Fodd bynnag, roedd nodyn o rybudd. **"Rhaid i'r diffiniad sicrhau nad yw'n seiliedig ar daliadau ynni gwirioneddol oherwydd yr aelwyddydd sy'n dlawd o ran tanwydd a all fod dan wres eu cartref ac sydd felly'n atal eu hunain rhag talu mwy na 10% (er y dylent, mewn gwirionedd, fod yn gwario mwy i allu bodloni eu gofynion gwresogi)".** Roedd y risg hon o dangynhesu, hunan-ddatgysylltu a hunan-d dogni yn thema barhaus drwy gydol yr ymarfer ymgynghori.

Rwyf wedi ystyried yr argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor a'r sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n derbyn bod manteision ac anfanteision pa fesur bynnag a fabwysiedir. Ar y cyfan ac wrth ystyried yr holl sylwadau a gyflwynodd imi ar y pwynt hwn, yr wyf wedi cwblhau'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd a ddefnyddir mewn perthynas â Chymru.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs